



Cylchlythyr Y Cyfnod Sylfaen

Tachwedd 2020 - Tymor yr Hydref

Mathemateg a Rhifedd

- Yn y gwersi mathemateg byddwn yn chwarae gemau dis a gemau cyfri er mwyn enwi ac adnabod rhifau.
- Byddwn yn trefnu deinosauriaid ac olion traed deinosauriaid yn ôl maint.
- Byddwn yn mesur deinosauriaid gan ddefnyddio ciwbiau cyfri neu bren mesur.
- Byddwn yn trefnu deinosauriaid rhif o'r rhif lleiaf i'r mwyaf/ mwyaf i'r lleiaf.
- Bydd cyfle i'r plant greu deinosauriaid o siapiau.



Dyniaethau

- Byddwn yn dysgu am losgfynddoedd.
- Cawn ddysgu am ffosiliau deinosor a sut y cloddir amdanynt.

Celfyddydau Mynegiannol

- Bydd cyfle i'r plant greu ffosiliau deinosor gan ddefnyddio toes halen.
- Byddwn yn creu sgerbwd deinosor gan ddefnyddio ffyn gwlan cotwm.
- Cawn baentio olion traed deinosor.
- Ymarfer sgiliau siswrn.

Gwybodaeth i Rieni Meithrin a Derbyn: Deinosauriaid



Iaith a Llythrennedd

- Byddwn yn ymarfer ysgrifennu enw.
- Byddwn yn ymarfer ffurfio llythrennau'r Wyddor yn gywir gan ddefnyddio - paent, tywod, glitter...
- Byddwn yn ymarfer enwi ac adnabod llythrennau'r Wyddor.
- Cawn wrando ar straeon Deinosauriaid amrywiol (gweler rhai o'r llyfrau gyferbyn)
- Bydd y plant yn dilyn cyfarwyddiadau i greu deinosauriaid o lego.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg


- Cynnal arbrofion dŵr - arnofio a suddo.
- Creu cot i deinosor - arbrofi gyda ffabric a pha un fydd orau ar gyfer creu cot law.

Iechyd a Lles

- Yn y gwersi ymarfer corff bydd y plant yn creu symudiadau deinosor ac wy deinosor.
- Byddwn yn dysgu am bwysigrwydd a dulliau cywir golchi dwylo.
- Fe fyddwn yn annog y plant i ddod yn fwy annibynnol yn eu sgiliau personol e.e. gwisgo cot ac gwisgo esgidiau yn annibynnol.
- Byddwn yn defnyddio rhaglenni fel 'Cosmic Kidz' er mwyn gwneud sesiynau ioga.

PRYDLONDEB

Mae angen i'ch plentyn gyrraedd y dosbarth erbyn **9.00 y bore**. Yn affodus os yw eich plentyn yn cyrraedd ar ôl 9.10 bydd ef neu hi yn cael ei farcio fel hwyr ar y gofrestr. Ni ddylai eich plentyn gyrraedd yr ysgol cyn 8.50yb oni bai eu bod yn mynychu'r 'Clwb Brecwast'



Cofiwch...

ADDYSG GORFFOROL

Mae angen i'r plant gadw crys t, siorts a phympiau mewn bag ar y peg gyda phob eitem wedi ei labelu yn glir.

Briallu	Dydd Mercher
Gwyddfif	Dydd Mawrth
Fioled	Dydd Llun



GWOBROWYO

Fel hyn rydym yn gwobrowyo'r plant gyda sticeri.

h	h am helpu		Gwrando'r tro cyntaf
	Ymddygiad sydd yn gwneud i eraill wenu.		Siarad Cymraeg neu defnyddio geirfa newydd.
t	t am tacluso		Ffrind caredig
	Gwaith/ymddygiad arbennig.		Eistedd yn dawel ar y mat.

Mae addysg yn yr awyr agored yn elfen bwysig o'r cyfnod sylfaen ac felly bydd y plant allan yn ddyddiol ym mhob math o dywydd. Bydd eich plentyn angen par ychwanegol o sanau yn ei fag. **Diolch yn fawr.**

